# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Fideogynhadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 11 Mawrth 2021

Amser: 09.15 - 11.42

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/11113

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Lynne Neagle AS (Cadeirydd)<br>Dawn Bowden AS<br>Hefin David AS<br>Paul Davies AS (yn lle Suzy Davies AS)<br>Siân Gwenllian AS<br>Laura Anne Jones AS |
| Tystion: | Kieron Rees, Prifysgolion Cymru<br>Dr Ben Calvert, Prifysgolion Cymru<br>Amanda Wilkinson, Prifysgolion Cymru<br>Dr David Blaney, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru<br>Bethan Owen, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru<br>Philip Blaker, Cymwysterau Cymru<br>Denver Davies, Cymwysterau Cymru<br>Yana Williams, Coleg Cambria<br>Barry Walters, Coleg Sir Benfro<br>Karen Phillips, Coleg y Cymoedd |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

| | |
|---|---|
| Staff y Pwyllgor: | Llinos Madeley (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc)<br>Phil Boshier (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

1.2 Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd, ond bod y cyfarfod yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv.

1.3 Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cytuno, pe bai hi'n gadael y cyfarfod am unrhyw reswm, y byddai Dawn Bowden AS yn Gadeirydd Dros Dro yn unol â Rheol Sefydlog 17.22.

1.4 Cafwyd ymddiheuriadau gan Suzy Davies AS, roedd Paul Davies yn bresennol ar ei rhan fel eilydd. Cafwyd ymddiheuriadau hefyd gan David Jones, Cadeirydd Cymwysterau Cymru.

## 2 COVID-19: addysg uwch

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth yn ymwneud ag effaith COVID-19 ar addysg uwch a myfyrwyr yn y sector addysg uwch.

## 3 COVID-19: addysg bellach

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth yn ymwneud ag effaith COVID-19 ar addysg bellach a myfyrwyr yn y sector addysg bellach.

## 4 Papurau i'w nodi

### 4.1 Llythyr gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol ar gyfer Rheoleiddio yn y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau ynghylch cyhoeddi adolygiad i'r dull o ddatblygu modelau ystadegol ar gyfer dyfarnu graddau yn 2020

4.1a Cafodd y papur ei nodi.

**4.2 Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch Cyfarfod Gweinidogol Sector Gwaith Cynhwysiant Digidol y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig**

4.2a Cafodd y papur ei nodi.

**4.3 Crynodeb o'r drafodaeth ford gron a gynhaliwyd gyda'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch y cynnydd a wnaed o ran hawliau plant yng Nghymru.**

4.3a Cafodd y papur ei nodi.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 COVID-19: Trafod y dystiolaeth

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywodd o dan eitemau 2 a 3.